

Rhyfeddol ras

(penderfyniad / dewrder / gonestrwydd / gosod esiampl)

Codai'r tonnau yn uwch ac yn uwch. Llifai dŵr y môr i mewn i'r llong. Swatiai'r llongwyr gyda'i gilydd gan feddwl yn siŵr mai hon fyddai'r fordaith olaf iddyn nhw i gyd. Dechreuodd ambell un o'r llongwyr ifanc grio'n hidl. Fel arfer, byddai'r llongwyr profiadol yn barod i'w cysuro a'u helpu ond, y tro hwn, roedd hyd yn oed y llongwyr profiadol yn fud. Hon oedd y storm waethaf; tybed ai hon fyddai'r storm olaf i griw'r llong? Chwyrnai'r gwynt yn y rigin, hyrddiai'r tonnau'n fwy enbyd o funud i funud a'r llong yn cael ei thaflu fel corcyn yn y môr brochus.

Yn sydyn daeth teimlad rhyfedd dros un o'r llongwyr. Teimlad od iawn! Teimlai ei fod yn ddiogel. Nid oedd dim byd yn ei boeni. Daeth rhyw dangnefedd drosto. Teimlai'n sicr fod Duw yn ei warchod ac yn gwarchod gweddill y llongwyr. "Mi fydd popeth yn iawn," meddai John wrth ei gyd-longwyr. "Mae Duw yn sicr o ofalu amdanom." Ymhen awr neu ddwy roedd y gwynt wedi gostegu a'r glaw wedi peidio. Roedd y profiad a gafodd yn ystod y storm wedi ei sicrhau bod Duw yn bod.

Ond nid felly oedd hi yn hanes John Newton. Bu ei fam farw pan oedd yn blentyn saith mlwydd oed. Gan fod ei dad yn gapten llong roedd hi'n anodd iddo fynd â'r bachgen gydag ef ar y llong, felly doedd yna ddim ond un peth i'w wneud a hynny oedd ei anfon i ysgol breswyl. Blynnydoedd anhapus iawn oedd y blynnydoedd yn yr ysgol. Roedd yn cael ei gam-drin gan y plant eraill. Un diwrnod, ac yntau yn un ar ddeg oed erbyn hyn, rhedodd o'r ysgol a mynd i lawr i lan y môr. Yn y porthladd roedd llong yn barod i adael ar ei thaith. Neidiodd ar y llong a dyna oedd ei hanes byth wedyn. Bywyd anodd oedd bywyd ar y llong bryd hynny. Ond gwaethygodd pethau'n ddifawr. Cafodd ei ddal gan y press gang.

Gwaith y rhain oedd cael digonedd o ddyinion i ymuno â'r Llynges. Bellach roedd hi'n waeth o lawer. Dim ond gwaith ac ychydig o orffwys oedd bywyd i John a'i debyg erbyn hyn. Un noson, pan oedd yn synfyfyrio ar ei ben ei hun, meddyliodd, "Mae bywyd yn anodd, yn llawn o beryglon a threialon . . . fedra i ddim credu fod yna Dduw yn bod. Dydw i ddim am ddarllen y Beibl byth eto yn fy mywyd. A pheth arall, pan fydda i ar y tir mawr wna i byth fynd i mewn i eglwys. Does yna ddim Duw."

Gofynnodd i'r capten a gâi ei drosglwyddo i un o longau'r caethweision. Cafodd ei ddymuniad. Dyna lle bu ef am

flynyddoedd wedyn yn cario caethweision o Affrica i wahanol rannau o'r byd. Roedd y rhan fwyaf o'r caethweision yn cael eu gwerthu i blanhigfeydd cotwm yn nhaleithiau deheuol America. Roedd y llongau'n orlawn a byddai llawer o'r caethweision yn marw ar y llongau cyn cyrraedd y planhigfeydd. Gwaith John ar y llong hon oedd eu cadw ar waelod y llong lle roedd hi'n dywyll fel y fagddu. Doedd llawer ohonyn nhw byth yn gweld golau dydd. Gwaeddai a rhegai ar y caethweision a'u trin yn union fel anifeiliaid rheibus. Un noson, pan gafodd gyfle i fwynhau ychydig o seibiant, gwelodd lyfr wedi cael ei daflu i gornel y cwch. Roedd wedi gweld y llyfr hwn ers rhai dyddiau ond doedd o ddim wedi cael cyfle i edrych arno. Symudodd rai o'r celfi a chyrhaeddodd at y llyfr. Roedd rhai tudalennau wedi rhwygo ond dechreuodd ei ddarllen, "Wel dyma lyfr sych," meddai, "llyfr am Iesu Grist. Na, dydw i ddim am ddarllen dim amdano. Dydw i ddim am ddarllen dim am grefydd. Maen nhw'n dweud fod Iesu Grist yn fab Duw. Wel os nad oes yna Dduw felly doedd ganddo fo ddim mab." Taflodd y llyfr yn ôl i'r gornel. Syrthiodd i gysgu. Deffrodd a daeth yr ysfa i fynd yn ôl at y llyfr. Agorodd y llyfr unwaith yn rhagor. Dechreuodd ei ddarllen. Y tro hwn roedd geiriau'r llyfr yn dod yn fyw iddo. Gwelodd, am y tro cyntaf, y math o fywyd roedd wedi'i fyw. A'r noson honno cododd storm enbyd . . .

Sgrifennodd am ei brofiad y noson honno, nid mewn llyfr ond mewn emyn. Mae'r emyn ar gael erbyn heddiw yn Gymraeg. "Rhyfeddol ras . . ." Yna ffarweliodd â'r angor a chafodd ei ordeinio'n offeiriad. Bu o gymorth i William Wilberforce yn ei waith o geisio dileu caethwasiaeth. Ond fel awdur yr emyn 'Amazing Grace' y cofir yn bennaf am John Newton. Ond cofiwch ei fod wedi sgrifennu oddeutu 288 o emynau i gyd.

Adnod: "Un peth a wn i: roeddwn i'n ddall, ac yn awr rwyf yn gweld." Ioan 9:25



Gwedi: Diolch i Ti, O Dduw, am ddangos dy hun i bobl nad oes ganddyn nhw'r gronyn lleiaf o ddiddordeb ynot ti. Amen.



Trafod:



- Sut y byddech chi'n mynd ati i geisio esbonio hanes tröedigaeth John Newton?
- Chwiliwch am enghreifftiau eraill o emynau John Newton. Oes yna rai o'r rhain wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg?